

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blynyddoedd 3 i 6

Blwyddyn 3

Blwyddyn 4

Blwyddyn 5

Blwyddyn 6

Llinyn

Dinasyddiaeth – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddynt ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.

Dinasyddiaeth

Elfen

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Hunaniaeth, delwedd ac enw da

- deall bod rheolau syml ar gyfer rhannu delweddau a data, e.e. *deall na ellir cymryd ffotograffau o bobl eraill na'u rhannu ar-lein heb gael caniatâd o flaen llaw*
- defnyddio strategaethau i greu a chadw cyfrineiriau diogel a chryf, e.e. *dewis tri neu bedwar gair ar hap a'u huno neu ddefnyddio priflythrennau a rhifau*

- deall sut i ddiogelu eu hunain rhag cael eu hunaniaeth wedi'i ddwyn ar-lein, e.e. *symbolau diogelwch fel y clo, gwe-rwydo, gwefannau sgamio*
- deall bod rhoi gwybodaeth ar-lein yn gadael ôl-troed neu lwybr digidol, e.e. *i hwyluso lladrata hunaniaeth*
- pennu risgiau o ran hunaniaeth a manteision gosod meddalwedd, e.e. *pennu risgiau posibl o osod meddalwedd am ddim a meddalwedd y mae'n rhaid talu amdano, megis gallai meddalwedd am ddim lawrlwytho firsau i'ch dyfais/cyfrifiadur*

- siarad am yr effaith y gall y cynnwys digidol a greir ei chael, e.e. *meddwl yn feirniadol am yr wybodaeth a rennir ar-lein; bod yn ymwybodol o destun, ffotograffau a fideos priodol ac amhriodol ac effaith rhannu pethau o'r fath ar-lein*
- esbonio pam ei bod yn bwysig trafod eu defnydd o dechnoleg ag oedolyn, e.e. *trafod agweddau o ran enw da a drwg*
- cadw cyfrineiriau diogel yn rheolaidd gan ddefnyddio nodweddion cyfrineiriau cryf a pheidio â defnyddio'r un cyfrinair fwy nag unwaith

- gwybod beth y gall metadata ffotograff ei gynnwys, e.e. *dyddiad, amser a lleoliad*
- adnabod manteision a risgiau dyfeisiau symudol sy'n cyhoeddi lleoliad y defnyddiwr/dyfais, e.e. *apiâu â mynediad i leoliad*
- adnabod gwefannau diogel drwy edrych am seliau bendith preifatrwydd, e.e. *https, eicon clo clap*
- adnabod manteision a risgiau rhoi gwybodaeth bersonol a rhoi mynediad i wahanol feddalwedd i ddyfeisiau
- deall sut a pham y mae pobl yn defnyddio eu gwybodaeth a'u presenoldeb ar-lein i greu delwedd rithwir o'u hunain fel defnyddiwr

Iechyd a lles

- cydnabod cyfyngiadau oedran ac addasrwydd cyfryngau a dyfeisiau digidol, e.e. *lleoli sgorau PEGI a chanllawiau cyfyngiadau oedran a dechrau eu deall*
- pennu effeithiau corfforol ac emosiynol chwarae/gwylio cynnwys/gemau

- adnabod dylanwadau cadarnhaol a negyddol technoleg ar yr amgylchedd, e.e. *ystyried y gwahanol ffyrdd y mae amser hamdden yn cael ei dreulio a dechrau dod o hyd i gydbwysedd rhwng gweithgareddau dysgu actif a gweithgareddau digidol*
- deall pwysigrwydd cydbwysu'r amser a dreulir yn syllu ar y sgrin ac yn chwarae gemau â rhannau eraill o'u bywydau

- deall manteision ac anfanteision, ynghyd â dibenion newid delwedd yn ddigidol, y caniatadau sydd eu hangen, a'r rhesymau dros hyn oll

- deall pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng amser yn chwarae gemau neu amser sgrin, a rhannau eraill o'u bywydau, e.e. *archwilio'r rhesymau posibl pam y maent yn cael eu temtio i dreulio mwy o amser yn chwarae gemau neu'n ei chael hi'n anodd stopio chwarae a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu hiechyd*

Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth

- esbonio sut mae rhoi credyd i rywun yn arwydd o barch
- esbonio pryd a sut y mae'n iawn i ddefnyddio gwaith pobl eraill

- deall mai 'llên-ladrad' yw copio gwaith eraill a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun, e.e. *dechrau ystyried canlyniadau llên-ladrad*
- adnabod marciau dŵr a symbolau hawlfraint, e.e. *adnabod marciau dŵr ar amrywiaeth o gyfryngau, gwybod y rhesymau dros ddefnyddio marciau dŵr ac archwilio sut i'w hychwanegu mewn gwahanol feddalwedd*

- cyfeirio at bob ffynhonnell wrth ymchwilio ac esbonio pwysigrwydd gwneud hynny, e.e. *creu rhestrau syml ar gyfer cyfeirnod ffynonellau digidol ac all-lein; trafod hawliau a chaniatadau sydd ynghlwm wrth hynny*
- deall y gellir golygu ffotograffau'n ddigidol, a'r hawliau a'r caniatadau sydd ynghlwm wrth hynny

- cyfeirio at bob ffynhonnell wrth ymchwilio ac esbonio pwysigrwydd gwneud hynny, e.e. *creu rhestrau syml ar gyfer cyfeirnod ffynonellau digidol ac all-lein; trafod hawliau a chaniatadau sydd ynghlwm wrth hynny*
- deall y gellir golygu ffotograffau'n ddigidol a thrafod hawliau a chaniatadau sydd ynghlwm wrth hynny

Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio

- esbonio tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng rhyngweithio ar-lein ac all-lein, e.e. *dilyn yr un rheolau pan yn cyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein; trafod sut y gellir camddechongli cyfathrebu ar-lein*
- llunio negeseuon clir a phriodol mewn cymunedau ar-lein
- nodi mathau gwahanol o fwlio, gan gynnwys seiberfwlio, ac awgrymu strategaethau y gellir eu defnyddio i ddelio â nhw, e.e. *sgrin-lun, blocio, adrodd*.

- pennu gweithrediadau a chatau ar gyfer adrodd am seiberfwlio, a'i atal, e.e. *defnyddio strategaethau fel peidio ag ymateb, adrodd yn ôl a chadw'r dystiolaeth*
- adnabod ymddygiad priodol wrth gymryd rhan mewn, neu gyfrannu at, brosiectau dysgu ar y cyd ar-lein, e.e. *dyfeisio cyfres o reolau*.

- arddangos ymddygiad priodol ar-lein a gweithredu strategaethau i ddiogelu eu hunain ac eraill rhag peryglon posibl ar-lein, bwlio ac ymddygiad amhriodol, e.e. *diffodd sylwadau ar gyfryngau digidol, blocio defnyddwyr; gwybod sut i adrodd am gynnwys amhriodol a chamddefnydd, a delio ag ef*.

- arddangos ymddygiad priodol ar-lein a gweithredu ystod o strategaethau i ddiogelu eu hunain ac eraill rhag peryglon posibl ar-lein, bwlio ac ymddygiad amhriodol, e.e. *diffodd sylwadau ar gyfryngau digidol, blocio defnyddwyr; nodi risgiau ac effeithiau cyfreithiol anfon delweddau a chynnwys personol/secstio; adnabod iaith a allai gael ei ystyried i fod yn ymosodol (gan gynnwys bod yn hiliol, rhywiaethol, homoffobig, a thrawsffobig) mewn gweithgareddau ar-lein*.

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blynyddoedd 3 i 6

Blwyddyn 3

Blwyddyn 4

Blwyddyn 5

Blwyddyn 6

Llinyn

Rhyngweithio a chydweithio – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus.

Rhyngweithio a chydweithio

Elfen

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Cyfathrebu

- cyfnewid cyfathrebiad ar-lein syml, e.e. *e-bost neu alwad fideo*
- esbonio manteision cyfathrebu'n electronig, e.e. *arbed amser (yn enwedig o ran anfon pethau'n bell ar unwaith), arbed adnoddau, effeithlonrwydd cost, gallu i gael sawl defnyddiwr o wahanol wledydd yn cyfathrebu ar yr un pryd, hawdd rhannu/cadw/storio/tagio cynnwys*

- cyfnewid cyfathrebiadau ar-lein gyda dysgwyr eraill, gan ddefnyddio'r ystod gynyddol o nodweddion sydd ar gael, e.e. *anfon e-byst gydag atodiadau a newid y fformatio (lle bo'r ddyfais yn caniatáu hynny)*

- cyfnewid cyfathrebiadau ar-lein gyda dysgwyr eraill, gan ddefnyddio'r ystod gynyddol o nodweddion sydd ar gael, e.e. *wrth e-bostio, defnyddio'r offeryn chwilio, rheoli cysylltiadau*
- dangos dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision gwahanol ffyrdd o gyfathrebu ar-lein a phryd y mae'n briodol eu defnyddio, e.e. *esbonio pryd y gallai cynadleda fideo fod yn fwy priodol nag e-bost, ac fel arall; esbonio manteision ac anfanteision defnyddio negeseuo sydyn mewn cyd-destunau cymdeithasol; siarad am bwrpas a chynulleidfa*

- cyfnewid cyfathrebiadau ar-lein, gan ddefnyddio ystod gynyddol o nodweddion sydd ar gael, e.e. *rheoli ffolderi o e-byst gan gynnwys defnyddio'r swyddogaeth adrodd i hidlo sbam a defnyddio gwe-gamerâu i wneud galwadau fideo*
- dangos dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision gwahanol ffurfiau o gyfathrebu ar-lein a phryd y mae'n briodol eu defnyddio, e.e. *esbonio pryd y gallai cynadleda fideo fod yn fwy priodol nag e-bost, ac fel arall; esbonio manteision ac anfanteision defnyddio negeseuo sydyn mewn cyd-destunau cymdeithasol; siarad am bwrpas a chynulleidfa*

Cydweithio

- defnyddio plattform cydweithio ar-lein i greu neu olygu ffeil, e.e. *prosesu geiriau, rhaglenni cyflwyniadau, taenlenni*

- rheoli ffeil ar-lein, gan ychwanegu sylwadau ac ymateb iddynt, e.e. *creu, rhannu a golygu ffeil ar-lein, gan gael trafodaeth fyfyrion gydag athro/athrawes a/neu gyfoedion*

- gweithio gydag eraill i greu prosiect ar-lein ar y cyd at ddiben penodol, gan rannu a gosod caniatâd mewn ffordd briodol ar gyfer aelodau eraill y grŵp, e.e. *golygu, rhoi sylwadau, gweld*

- gweithio gydag eraill i greu prosiect ar-lein ar y cyd at ddiben penodol, gan rannu a gosod caniatâd mewn ffordd briodol ar gyfer aelodau eraill y grŵp, e.e. *golygu, rhoi sylwadau, gweld*

Storio a rhannu

- cadw ffeiliau i leoliad penodol gan ddefnyddio enw ffeil priodol, e.e. *dewis enw ffeil a fyddai'n gyfleus i chwilio amdano yn nes ymlaen*
- deall pwysigrwydd cadw gwaith o dro i dro i beidio â'i gollu.

- deall bod gwahanol fathau o storio, e.e. *lleol, rhwydwaith, ar-lein, symudadwy*
- rheoli ffeiliau a ffolderi'n lleol neu ar-lein, e.e. *symud ffeiliau i ffolder gwahanol.*

- cadw fersiynau wrth gefn ar ail neu drydedd dyfais storio, e.e. *dyfais storio symudadwy, gyriant rhwydwaith (yn lleol neu ar-lein)*
- chwilio am ffeil benodol
- lanlwytho ffeiliau o yriant lleol i storfa ar-lein.

- creu a rhannu hyperddolenni i ffeiliau lleol, rhwydwaith ac ar-lein
- diogelu ffeil gyda chyfrinair.

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blynyddoedd 3 i 6

Blwyddyn 3

Blwyddyn 4

Blwyddyn 5

Blwyddyn 6

Llinyn

Cynhyrchu – Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath.

Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.

Cynhyrchu

Elfen

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Cynllunio, cyrchu a chwilio

- defnyddio meini prawf llwyddiant fel cynllun i gwblhau tasg ddigidol
- datblygu strategaethau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau, e.e. *dilyn set o gyfarwyddiadau gam wrth gam am sut i chwilio am wybodaeth sy'n briodol i dasg yn effeithiol a dewis gwefan briodol drwy sgimio drwy nifer bychan o ffynonellau*

- datblygu eu meini prawf llwyddiant eu hunain i gynllunio tasg ddigidol
- dod o hyd i wybodaeth briodol gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau chwilio
- dewis gwefan briodol o ganlyniadau chwilio a dechrau ystyried a yw'r cynnwys yn ddibynadwy

- creu cynllun ysgrifenedig gan ddefnyddio templed a ddarperir
- addasu allweddeiriau a thechnegau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol; dechrau cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn eu gwaith; ystyried a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, e.e. *dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio termau cywir, defnyddio ystod o ffynonellau i wirio dilysrwydd a deall effaith gwybodaeth anghywir*

- cynllunio gwaith yn annibynnol cyn dechrau ar y dasg ddigidol
- ymestyn strategaethau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth; storio chwiliadau a chanlyniadau blaenorol at ddefnydd yn y dyfodol, e.e. *cyfeirio drwy hyperddolenni a chreu nod tudalen ar gyfer gwefan*

Creu

- creu a golygu cydrannau amlgyfrwng
- trefnu ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol

- creu ac addasu cydrannau amlgyfrwng gan ddefnyddio ystod o feddalwedd
- addasu a chyflwyno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol

- cyfuno ystod o gydrannau amlgyfrwng i sicrhau canlyniad priodol
- creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol

- defnyddio ystod o feddalwedd i gynhyrchu a mireinio cydrannau amlgyfrwng
- dewis a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo i sicrhau canlyniad at ddiben penodol; defnyddio offerynnau meddalwedd i wella'r canlyniadau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol

Gwerthuso a gwella

- rhoi barn am eu gwaith eu hunain ac awgrymu gwelliannau, e.e. *canfod camgymeriadau a defnyddio dulliau golygu i wella eu gwaith.*

- rhoi barn am eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill ac awgrymu gwelliannau wrth weithio'n annibynnol neu ar y cyd, e.e. *gwirio'u gwaith a chywiro sillafu/defnyddio gwirydd sillafu; penderfynu a yw llinell goch o dan eiriau yn golygu eu bod wedi'u camsillafu; defnyddio'r sillafiadau a awgrymir lle bo hynny'n briodol*
- rhoi rhesymau am ddewisiadau, e.e. *trafod manteision a chyfyngiadau gwirydd sillafu, yn enwedig mewn dogfennau Cymraeg.*

- esbonio'r rhesymau am gynllun a chynnwys eu gwaith eu hunain, e.e. *gwerthuso'r cyflwyniad o ran priodoldeb a'r gynulleidfa*
- rhoi sylwadau am resymau o ran y diwyg
- gwahodd adborth/ymatebion gan eraill
- creu grwpiau a rhannu gwaith rhyngddynt i ganiatáu adolygu gwaith.

- esbonio'r rhesymau am gynllun a chynnwys eu gwaith eu hunain, e.e. *gwerthuso'r cyflwyniad o ran priodoldeb a'r gynulleidfa*
- sicrhau bod allbwn yn briodol at ddiben penodol
- rhoi sylwadau am resymau o ran y diwyg a'r cynnwys
- gwahodd adborth/ymatebion gan eraill, e.e. *defnyddio 'Sylw' yn Word Online/Excel Online i ofyn cwestiynau neu roi awgrymiadau*
- creu grwpiau a rhannu gwaith rhyngddynt i ganiatáu adolygu gwaith.

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Blynyddoedd 3 i 6

Blwyddyn 3

Blwyddyn 4

Blwyddyn 5

Blwyddyn 6

Llinyn

Data a meddwl cyfrifiadurol – Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddynt yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.

Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data; byddant yn archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n digidol, a bydd yn rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinamig.

Data a meddwl cyfrifiadurol

Elfen

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Mae dysgwyr yn gallu:

Datrys problemau a modelu

- cyfleu datrysiad gyda symbolau, e.e. *trefn deffro, drwy ddiagram neu siart llif*, a dod o hyd i'r newidynnau yn y datrysiad
- canfod a chywiro camgymeriadau mewn dilyniannau o gyfarwyddiadau, e.e. *pennu camgymeriadau mewn datrysiad a fyddai'n achosi iddo fethu (h.y. dadfygio)*
- pennu ailadroddiadau neu lŵpiau mewn dilyniant, e.e. *pennu lle i fyrhau cyfres o gyfarwyddiadau drwy ailadrodd camau, megis wrth ddysgu cân newydd*

- arddangos sut y gellir bod angen ailadrodd rhan o ddatrysiad
- cyfleu datrysiad syml mewn siart llif sy'n cynnwys elfen sy'n cael ei lŵpio, e.e. *pennu lle gallai lŵp neu ailadroddiad weithio mewn siart llif, megis goleuadau traffig, a dewis newidynnau*

- dylunio dilyniannau syml o gyfarwyddiadau (algorithmau) gan gynnwys defnyddio gwerthoedd Boolean (h.y. *ie/na/cywir/anghywir*), e.e. *o fewn algorithm arddangos y defnydd cywir o werthoedd Boolean gan roi ateb 'naill ailneu'*

- dangos sut y mae rhaglenni neu brosesau'n rhedeg drwy ddilyn dilyniant o gyfarwyddiadau i'r gair ac yn ei drefn
- dangos sut mae algorithm yn ddefnyddiol o ran cynrychioli datrysiad i broblem drwy ei brofi
- deall bod newid cyfarwyddiadau yn gallu effeithio ar broses, neu hyd yn oed roi terfyn arni, e.e. *gall newid cyfarwyddiadau o gwmpas mewn rhaglen gynhyrchu canlyniadau annisgwyl neu achosi i'r rhaglen fethu yn gyfan gwbl*

Llythrennedd gwybodaeth a data

- casglu data, mewnbynnu i wahanol fformatau a dechrau dadansoddi, e.e. *tblau, siartiau, taenlenni a chronfeydd data*.

- dechrau creu setiau data ac echdynnu gwybodaeth ohonynt, ar ffurf tblau, siartiau, taenlenni a chronfeydd data.

- creu, archwilio a dadansoddi setiau data, gan nodi perthynas oddi fewn iddynt, e.e. *defnyddio tblau, siartiau, taenlenni a chronfeydd data*.

- adeiladu, mireinio a dadansoddi setiau data i brofi neu gefnogi ymchwiliad.